

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Chwefror 2il, 2016

Presennol: Alwyn Roberts (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol).

1531 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Heledd Jones, Catrin Roberts a Lis Puw. Cydymdeimlwyd gyda Dewi Jones a'r teulu yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei nain.

1532 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1533 Derbyniwyd datganiad buddiant Rhodri Jones ym mater cais cynllunio Brynllech Uchaf, a chan Dewi Jones a Huw Antur ym mater cais ariannol Pwyllgor y Neuadd Bentref..

1534 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 5ed, 2016.

1535 **Materion yn codi o'r Cofnodion a Materion y Clerc:**

- i. Adroddwyd fod llythyr wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd ynglŷn â biniau halen yr ardal, ond na chafwyd ymateb hyd yma.
- ii. Derbyniwyd dyfynbris gan Owain Sion Gwent ar gyfer paentio Lloches Bws Ty'n Ddôl. Cytunwyd i dderbyn ei brisiad i gwblhau'r gwaith ar y coed, y ffenestri, y fainc, y nenfwd a'r trawstiau.
- iii. Adroddwyd fod gwybodaeth wedi ei anfon at gyfreithiwr Cyngor Gwynedd yn nodi nad oes gan y Cyngor Cymuned sêl i'w ddefnyddio ar ddogfennau cyfreithiol.

1536 **Adroddiad y Cyngorydd Sir:**

Llifogydd Afon Lliw - Adroddwyd am gyfarfod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd i drafod y llifogydd ger Pont Lliw, pryd y gwnaed cais i GNC glirio'r graean sydd wedi casglu'r ochr uchaf i'r bont. Cytunwyd fod hwn yn fater o ddiogelwch y cyhoedd a bod angen tynnu sylw Dafydd Elis-Thomas AC at y mater. Cafwyd gwybodaeth nad oedd y wal ger Plas Deon yn gyfrifoldeb CNC a bod unrhyw waith atgyweirio yma felly yn annhebygol.

Cartrefi Cymunedol Gwynedd - adroddwyd fod cyfarfod ar y gweill ym Maes y Pandy ar Chwefror 22ain i drafod gwella'r amgylchedd yn ardal y fflatiau. Gofynnwyd i'r Cyng. Arwel Ll Jones fynychu'r cyfarfod hefo Alan Evans.

Biniau Halen – Nodwyd fod Alan Evans wedi gofyn i swyddogion Gwynedd am restr o'r biniau halen yn yr ardal. Cafwyd trafodaeth ar sut i flaenoriaethu lleoliad y biniau a gofynnwyd i Beryl Griffiths, Arwel Ll Jones, Rhodri Jones ac Alan Evans ffurfio Is Grŵp i drafod hyn.

Her Gwynedd – Nodwyd fod dau weithdy wedi eu cynnal i bwysu a mesur yr arbedion angenrheidiol, ac y bydd drafft terfynol o'r toriadau ar gael yn fuan, gyda

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

chabinet Cyngor Gwynedd yn eu hystyried mewn pythefnos. Nodwyd fod canlyniadau ymgynghoriad Her Gwynedd ar gael ar wefan

www.gwynedd.gov.uk/hergwynedd

Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith.

1537 **Materion Eiddo'r Cyngor** – nid oedd mater ychwanegol i'w drafod.

1538 **Materion ariannol:** Derbyniwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y Terfyn Ariannol ar gyfer gwariant ar weithgarwch nad oes gan y Cyngor Cymuned bŵer penodol yn ei gylch, a nodwyd fod yr uchafswm yn £7.42 yr etholwr, sy'n cyfateb i gyfanswm o £3,546 i ardal Llanuwchllyn. Nodwyd fod Hysbysfwrdd y Fynwent wedi cyrraedd a bod angen gwneud trefniadau i'w osod. Cymeradwywyd y taliad am yr hysbysfwrdd. Gofynnwyd i'r Swyddog Ariannol baratoi Adroddiad Ariannol ar gyfer y cyfarfod nesaf pryd y byddir yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau'r ardal. Derbyniwyd llythyr gan Bwyllgor Rheoli'r Neuadd Bentref yn gofyn am gefnogaeth ariannol i gynnal y neuadd am y flwyddyn, a hefyd am gefnogaeth ychwanegol eleni i'r bwriad o wneud rhai gwelliannau a phrynu dodrefn ac offer newydd i'r neuadd. Rhoddwyd cefnogaeth i'r cais, a nodwyd y posibilrwydd o wneud defnydd o gyfran o incwm gwerthiant Cwt yr Hers - y symiau i'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

1539 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** Darllenwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd, a ddaeth trwy law Gwersyll Glan-llyn, yn nodi fod y Cyngor yn symud ymlaen i drafod gyda chontractwyr newydd i gwblhau'r gwaith o osod y bont dros yr Afon Lliw a chwblhau'r gwaith yn yr ardal yma o'r llwybr. Derbyniwyd llythyr hefyd yn tynnu sylw at Ffos Glanaber, goleuadau ac arwydd ger Pont Lliw a charthffosiaeth yn yr un ardal. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am arweiniad ar y cyfrifoldeb am Ffos Glanaber, i anfon y sylwadau am y goleuadau a'r arwydd ymlaen i Lywodraeth y Cynulliad, a'r sylwadau am y garthffosiaeth ymlaen i Ddŵr Cymru.

1540 **Partneriaeth Penllyn/ Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a nodwyd fod Cyngor Gwynedd bellach wedi sefydlu swyddfa i'w staff yng Nghanolfan Henblas. Adroddwyd fod y cais Loteri i adnewyddu llawr uchaf yr adeilad bron yn barod i'w gyflwyno, a hefyd fod y cwmni mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd ar sut i ddatblygu Ffair y Bala fel bod mwy o bwyslais ar gynnyrch a chrefftau lleol yn y ffair.

1541 **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Nodwyd fod cais NP5/71/119H/J i uwchraddio'r mast telegyfathrebu wrth Drws y Nant wedi ei gymeradwyo gan y Parc Cenedlaethol. Nodwyd hefyd fod cais NP5/71/39W am Estyniad i'r Llwybr Beicio ger Glan-llyn hefyd wedi ei gymeradwyo.

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio ôl weithredol NP5/71/459A i gadw estyniad deulawr ym Mrynlllech Uchaf. Rhoddwyd cefnogaeth i'r cais.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn Roberts

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gais NP5/71/L311B i Drosi Storfa i Uned Breswyl yn y Tyrpeg. Cytunwyd i nodi consyrn y Cyngor Cymuned fod angen gwarchod cymeriad a phensaernïaeth unigryw'r Tyrpeg, a hefyd i ofalu mai'r enw 'Tyrpeg' a ddefnyddir ac nid 'Toll House'.

Tŷ Moelwyn: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod cyhoeddus ym Mhorthmadog ar Chwefror 20fed i alw am gadw gwaith ym Mhorthmadog yn dilyn y bygythiad i ganolfan dreth yr HMRC yn y dref. Cytunwyd i anfon gair o gefnogaeth i'r ymgyrch.

1542 **Noson Goffi:** Cytunwyd i wneud y trefniadau yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

1543 **Y Groes Wen:** Cytunwyd i ofyn i'r Clerc drafod trefniadau canmlwyddiant y diweddar Robert J Evans, a fu farw o'i anafiadau yn dilyn y Rhyfel Mawr, gyda'r teulu, yr ysgol a'r Ofalaeth Bro.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 1/3/16 yn y Neuadd Bentref am 7.30 o'r gloch